



GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS



Prifysgol Cymru
University of Wales

CYNORTHWYDD GWERTHANT A MARCHNATA – GWASG PRIFYSGOL CYMRU, CAERDYDD

Cyfeirnod y Swydd: GPC001

Llawm Amser (35 awr, 1.0 CALI), Parhaol

Cyflog: o £18,000 y flwyddyn

Mae Gwasg Prifysgol Cymru (GPC), yng Nghaerdydd, yn dymuno penodi Cynorthwydd Gwerthiant a Marchnata, i weithio yn yr Adran Gwerthiant a Marchnata ddynamig. Dyma gyfle prin i ymuno â phrif gyhoeddwr academiaidd Cymru, ac yn ystod cyfnod cyffrous wrth i'r Wasg ddathlu ei chanmlwyddiant a rhoi cynlluniau twf strategol ar waith, gan gynnwys lansio argraffnod masnachol.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau rhyngbersonol rhagorol, hunan-gymhelliant, llygad am fanylder ac angerdd i wneud gwahaniaeth drwy gyhoeddusrwydd a gwerthiant effeithiol.

Mae swydd y Cynorthwydd Gwerthiant a Marchnata yn allweddol i sicrhau bod pob cyhoeddiad yn cael ei hyrwyddo yn effeithiol drwy gyflawni gweithgareddau hanfodol dydd i ddydd. Bydd y rôl yn chwarae rhan ganolog i sicrhau bod pob cyhoeddiad yn cyflawni ei botensial gwerthiant llawn. Mae'r Cynorthwydd Gwerthiant a Marchnata yn elfen hanfodol o weithgareddau busnes y cwmni, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd cyfathrebu aml-sianel, cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo ar-lein, a dyheadau twf y Wasg.

Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg, neu'r parodrwydd i ddysgu, yn ddymunol.

Gweler y Disgrifiad Swydd am rhagor o fanylion, ynghyd â rhestr o feini prawf hanfodol a dymunol 'Manyleb yr Unigolyn'.

Swydd **barhaol llawn amser** yw hon (35 awr yr wythnos).

Cyflog cychwynnol y swydd yw **£18,000** gyda lwfans gwyliau hael o **25** diwrnod yn flynyddol (ynghyd ag 8 gŵyl banc a 7 diwrnod cyffredinol/pan fo'r Brifysgol ar gau), yn ogystal â darpariaeth cynllun pensiwn y Brifysgol.

SUT I YMGEISIO

Gellir ymgeisio am y swydd drwy anfon llythyr cyflwyniadol a Curriculum Vitae. Dylai ymgeiswyr egluro sut maen nhw'n bodloni'r gofynion hanfodol a dymunol a restrir ym 'Manyleb yr Unigolyn'.

Dylid gyrru ceisiadau at eleri.lewis@pcydds.ac.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd, cysylltwch â'r Rheolwraig Gwerthiant Byd-eang, Maria Vassilopoulos maria.vassilopoulos@gwasg.cymru.ac.uk. Rhaid derbyn pob cais erbyn y dyddiad cau, 7fed Chwefror 2022.

Dylai ymgeiswyr na wahoddir mohonynt i gyfweiliad o fewn mis i'r dyddiad cau ystyried i'w cais fod yn aflwyddiannus.

MAE'R BRIFYSGOL YN GYFLOGWR CYFLE CYFARTAL